
**Yr her:**

**Mae mis Mai yn dod â Chymru ynghyd i holl fwrlwm Eisteddfod. Eleni Cawn Eisteddfod T – i ti, o'r tŷ! Beth am ddysgu mwy am Gymru, yr ardal leol a'i enwogion?**






**Pwyntiau trafod i rieni:**

- Pa liwiau sydd ar faner Cymru?
- Ydych chi'n gallu darganfod Cymru ar y map?
- Beth yw eich hoff gân Gymreig?
- Beth yw rhai o fwydydd traddodiadol Cymru?
- Pwy yw arwyr Cymru? Ydych chi'n gallu eu henwi?

# Cynllun pythefnos: Cymru (Bl 1 & 2)

## Rhaid gwneud...

| | | |
|---|---|---|
| • Dysgu geiriau sillafu wythnosol. Mae'r geiriau ar Spell j2blast i'w ymarfer!<br>• Darllen yn reolaidd– cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch – cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd. | • Ymarfer tablau mathemateg (Bl 1 - tabl 1, 2, 5 a 10/ Bl2 - tablau 1, 2, 5 a 10 i ddechrau a thabl 3 fel her!)<br>• Mathemateg - Bondiau rhif hyd at 100 - adio a thynnu.<br>• Adnabod a chyfrif cyfansymiau arian<br>• Adnabod amser e.e. o'r gloch, hanner awr wedi, chwarter awr wedi a chwarter i. | • Joe Wicks - sesiwn fyw ar 'YouTube' am 9:00yb<br>• Cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br>• Cosmic Kids Yoga - sesiwn ar 'YouTube'<br>• Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.<br>• Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb. |

## Dylech wneud...

| Llythrennedd | Rhifedd | Thema |
|---|---|---|
| Ewch ati i greu map meddwl am Gymru. Meddyliwch am draddodiadau, llefydd yng Nghymru, lliwiau, bwydydd, chwaraeon, afonydd a mynyddoedd, cestyll ag ati. | Ar eich taith dyddiol o amgylch yr ardal leol – tynnwch lun a chofnodwch sawl arwydd Cymraeg rydych yn darganfod yn ystod y pythefnos. Crëwch tabl rhicbren/graff (ar bapur/neu hwb) i ddangos eich cofnodion. | Ewch ati i adeiladu castell gan ddefnyddio deunydd o'ch dewis e.e. LEGO, duplo, blociau, bocsys ailgylchu, deunydd naturiol (brigau ag ati). Beth am esgus eich bod yn filwr yn y castell yma? |
| Meddyliwch am eich hoff lyfr Cymraeg. Ygrifennwch adolygiad llyfr syml. Tynnwch lun y clawr i gyd-fynd â'r adolygiad. | Gofynnwch i aelodau'r teulu – 'Pwy yw/oedd eich hoff chwaraewr rygbi?' Crëwch graff ar hwb i ddangos eich cofnodion. | Tynnwch lun o'ch hoff le/olygfa yn yr ardal leol. Defnyddiwch bensiliau lliw, peniau ffelt neu paent i'w lliwio. |
| Ysgrifennwch ffeil o ffeithiau/holiadur am eich hoff chwaraewr rygbi o Gymru.<br>Ffeil o ffeithiau: Darganfyddwch ffeithiau am y chwaraewr yma a nodwch yn eich llyfrau (neu ar HWB).<br>Holiadur: Gofynnwch i'r chwaraewr rygbi gwestiynau e.e. Beth yw dy oed? Beth yw eich taldra? ayyb. | Gweithiwch gydag oedolyn i bwyso a mesur cynhwysion ar gyfer creu pice ar y maen/cawl/ bara brith.<br>Cofnodwch y cynhwysion. | Perfformiwch eich hoff gân Cymraeg. Beth am gael aelodau eich teulu i ymuno? Rhannwch eich clip gyda'ch athro ar Hwb neu Trydar. |

## Gallaf wneud...

| | | |
|---|---|---|
| Heriau LEGO<br>Llyfrau sain David Walliams<br>Newsround – darllen y newyddio diweddaraf<br>ACTIV-I-TI – ar lein o 1:00yp<br>Science experiment<br>Science Investigations – STEM website stemsational.com<br>Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim<br>www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd<br>UKTWINKLHELPS<br>Zumba Kids | Minecraft<br>Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg<br>Carol Vorderman – 'My Maths School'<br>Cip ar Fathemateg<br>SGILIAU – gemau i'w chwarae adref/clwb ysgol ar<br>Facebook<br>Celf Helen Elliot – Pob dydd mercher a Gwener am3:00yp<br>Orielodl – fideo cam wrth gam<br>Criw Celf, Huw Aaron – pob dydd am 3y.p<br>Llifo'n Llawen – Yoga<br>Just Dance – 'Youtube' | Dawnsio gyda Oti Mabuse<br>PBSkids.org - Gemau Darllen i blant<br>BBC Bitesize<br>Hour of Code<br>Gwefan TopMarks Mathemateg<br>Gwefan MathsFrame Mathemateg<br>mathsalamanders.com<br>Gwersi canu gyda Myleene Klass am 10:00 yb<br>Coginio gyda Jamie Oliver am 12:00 yp<br>Traed Bach Sionc (Busy Feet) - Youtube |